# Cyngor Cymuned Bodedern

Cofnodion cyfarfod Cyngor Cymuned Bodedern a gynhaliwyd
ar lein drwy Zoom, nos Lun, 25 Gorffennaf 2022 am 7 yr hwyr.

1. **Croeso ac ymddiheuriadau**

**Presennol:** JF, LJ, EJ, GJ, JAR (Cadeirydd), RWO (clerc) VO.

Ymddiheuriadau: BH, EABT

Mynegwyd cydymdeimlad gyda EABT ar golled trist ei chwaer.

**2. Datgan Diddordeb:** RWO, Eitem 8.

**3. Derbyn Cofnodion Mehefin 2022**

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir, JF yn cynnig, LJ yn eilio.

**4. Materion yn codi**

4.1 Asesiad Risg wedi ei gyflwyno i CSYM ynglyn a Chanolfan Bro'r Ysgol.

4.2 Derbyniwyd ymateb gan Cynghorwr Llinos Medi i lythyr y Cyngor Cymuned ynglyn a phryderon gyda diffyg mantolen Ffrindiau Bodedern. Y clerc i fynegi anfodlonrywdd y Cyngor Cymuned gyda'r ymateb.

4.3 Y cadeirydd yn nodi fod ychydig o waith casglu sbwriel wedi bod ar Lon Dalar, ond and oedd dim wedi ei wneud yn Lon Dywyll. GJ i gysylltu a'r adran briffyrdd.

5. **Deddf Cynllunio a Gwlad a Thref: I dderbyn unrhyw sylwadau ar geisiadau cynllunio.**

5.1 Penmynydd, Bodedern– Apel gwrthod caniatad.

Mynegwyd cefnogaeth y Cyngor Cymuned unwaith eto i'r cais/apel, a digffyg dealltwriaath rhesymu yr adran gynllunio.

**6. Gohebiaeth i'w adolygu.**

6.1 Derbyniwyd lythyr gan Llifon Alliance– y clerc i ofyn am gopi cymraeg. GJ yn nodi y byddai Lynsey Campbell, Medrwn Mon yn gallu dod draw i drafod yr amcanion.

**7. Taliadau i'w gwneud –** Cytunwyd i wneud y taliadau canlynol. (*Yn unol a Rheol 12 o'r Rheolau Sefydlog)*

Dim wedi dod wrth law, ond nodwyd bydd bill torri'r fynwent a'r parc i ddod yn fuan, a gan nad oes cyfarfod mis Awst, awdurdodwyd y clerc i dalu'r bill yma cyn cyfarfod mis Medi.

**8. Eitemau a ddaeth i sylw'r Cyngor gan y cynghorwyr (Unrhyw Fater Arall)**

8.1 Nodwyd fod coed yn gor-dyfu tu allan i waliau'r fywnent– y cadeirydd wedi cael manylion cwmniau a all ymgymryd a'r gwaith. Y clerc i gysylltu am ddyfnbrisiau.

8.2 Mynwegwyd pryder unwaith eto fod enw'r Cyngor Cymuned yn gysylltiedig a'r arian a gasglwyd gan Ffrindiau Bodedern, ond and oedd mantolen ar gael. Y clerc i wneud ymholiadau anffurfiol a cyfreithwyr CSYM am gyngor cyffredinnol.

8.3 Y cadeirydd yn cyflwyno 3 enw ar gyfer eu cyf-ethol. Cytunwyd i'w cyf-ethol fel cynghorwyr.

8.4 EJ yn nodi pryder ynglyn a chystlltiad gwe mewn rhannau gwledig o'r Ynys. Y clerc i gysylltu a Menter Mon am gyngor pellach.

**9. Dyddiad cyfarfod nesaf.**

26/9/22 - (I gadarnhau os zoom neu wyneb yn wyneb agosach i'r amser)